

# Maniffesto Treftadaeth

## Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016



**Mae Grŵp Treftadaeth Cymru yn annog pob plaid wleidyddol i sicrhau'r canlynol:**

**1 Gwerthfawrogi ein hasedau treftadaeth unigryw ac arbenigedd y bobl hynny sy'n gofalu amdanynt**

- (a) Cefnogi staff cadwraeth arbenigol mewn awdurdodau cynllunio – *heb arbenigedd staff, ni fydd treftadaeth Cymru yn cael ei hamddiffyn nac yn cael sylw*
- (b) Ystyried yr amgylchedd hanesyddol wrth ad-drefnu llywodraeth leol - *nid ôl-ystyriaeth yw hwn - mae'n hanfodol.*
- (c) Cefnogi Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (RCAHMMW) - *Dylai eu cyllidebau (ar wahân) gael eu diogelu*

**2 Gweithredu Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) i wneud yn siŵr bod y gorffennol yn gweithio ar gyfer y dyfodol**

- (a) Darparu digon o adnoddau ar gyfer Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) - *nid oes gobaith iddo weithio heb adnoddau.*
- (b) Hyrwyddo amgylchedd hanesyddol Cymru - *nid ydym yn gwybod digon o hyd amdanom ni ein hunain a sut i adrodd ein hanes wrth eraill.*

**3 Sicrhau cefnogaeth ac adnoddau parhaus ar gyfer diogelu a gwella asedau treftadaeth**

- (a) Darparu mwy o gyllid craidd ar gyfer y sector treftadaeth - *buddsoddiad cadarn ar gyfer treftadaeth amgylchedd gynaliadwy*
- (b) Darparu cefnogaeth ar gyfer adeiladau sydd mewn perygl - *rydym eisiau i lai o adeiladau hanesyddol fod mewn perygl.*
- (c) Lobio Llywodraeth y DU ar faterion amgylcheddol hanesyddol - *gadewch i ni weithio gyda'n gilydd.*

**4 Cynnwys pawb - tirlfeddianwyr, cyrff treftadaeth, trigolion ac ymwelwyr - i fanteisio i'r eithaf ar ein treftadaeth**

- (a) Ennyn balchder gartref am dreftadaeth Cymru - *mae'n tanategu pwy ydym ni.*
- (b) Denu mwy o arian i mewn i dreftadaeth - *helpu sefydliadau treftadaeth i helpu eu hunain.*
- (c) Rhoi treftadaeth wrth wraidd datblygu cynaliadwy - *cadwraeth treftadaeth yw'r gweithgaredd cynaliadwy sylfaenol.*
- (ch) Dathlu buddsoddiad mewn treftadaeth - *gan ddod â buddiannau economaidd ac adfywio, a rhoi gwerth i gynhwysiant cymdeithasol a thwristiaeth.*

**Mae treftadaeth yn hanfodol ar gyfer lles cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol pobl a chymunedau yng Nghymru. Mae'n allweddol o ran hyrwyddo datblygu cynaliadwy sy'n cefnogi adfywio ehangach, sy'n catalyddu buddsoddiad, ac sy'n gwella sgiliau ar gyfer swyddi.**



*Llais y mudiad treftadaeth annibynnol yng Nghymru*

Mae Grŵp Treftadaeth Cymru yn gynghrair o ymgynghorion statudol a sefydliadau cenedlaethol gwirfoddol sy'n weithgar o ran gwarchod yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.

walesheritagegroup@gmail.com



## 1 Gwerthfawrogi ein hasedau treftadaeth unigryw ac arbenigedd y bobl hynny sy'n gofalu amdanynt

### A Cefnogi staff cadwraeth arbenigol mewn awdurdodau cynllunio

Mae nifer y staff cadwraeth adeiladau yn yr awdurdodau lleol ac yn adrannau cynllunio awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru wedi gostwng, ac mae swyddi wedi cael eu hisraddio. Mae hyn wedi arwain at:

- fwy o berygl o benderfyniadau o ansawdd gwael ac o niwed i uniondeb a diddordeb adeiladau hanesyddol Cymru
- fwy o amser ymateb i geisiadau adeiladau rhestredig a cheisiadau cynllunio.
- ddiffyg adnoddau i gynnig cyngor o ansawdd uchel cyn gwneud cais
- lai o allu ar ran awdurdodau lleol i ddatblygu prosiectau treftadaeth sy'n ysgogi adfywio
- ychydig iawn o amser i ddod o hyd i atebion i adeiladau sydd mewn perygl
- ddyletswyddau statudol yn cael eu hesgeuluso e.e. dynodi ac adolygu ardal gadwraeth
- lai o flaenoriaeth yn cael ei roi o ran cymryd camau gorfodi yn erbyn newidiadau sydd heb gael eu hawdurdodi.

Er mwyn cynnal a chynyddu safonau a gweithredu Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), rhaid gwrthdroi'r gostyngiad hwn mewn staff arbenigol.

### B Ystyried yr amgylchedd hanesyddol wrth ad-drefnu llywodraeth leol

Oherwydd ei bwysigrwydd i hunaniaeth a diwylliant Cymru a'i bwysigrwydd economaidd, dylai'r amgylchedd hanesyddol a sut mae'n cael ei reoli a'i ddiogelu fod yn un o'r ystyriaethau sylfaenol mewn unrhyw broses o ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol.

### C Cefnogi Cadw

Rydym yn cefnogi Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Mae Cadw yn adran fach, sy'n gyfrifol am gyflawni rôl bwysig a gwerthfawr iawn fel eiriolwr dros amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn chwarae rôl arweiniol o ran sicrhau bod treftadaeth Cymru yn cael ei chofnodi a bod gwybodaeth yn cael ei harchifo ac yn hygyrch. Dylid diogelu Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru rhag toriadau anghymesur mewn cyllid.

## 2 Gweithredu Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) i wneud yn siŵr bod y gorffennol yn gweithio ar gyfer y dyfodol

### A Darparu digon o adnoddau ar gyfer Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Rydym eisiau i'r adnoddau fod ar gael i ganiatáu i holl elfennau Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), pan gaiff ei ddeddfu, gael eu rhoi ar waith yn iawn, gan gynnwys cyhoeddi a lledaenu deunydd cyngorol cysylltiedig, a chefnogi'r gwaith o gynnal Cofnodion yr Amgylchedd Hanesyddol.

### B Hyrwyddo amgylchedd hanesyddol Cymru

Yn 2013, roedd 58% o'r ymwelwyr Prydeinig a oedd yn aros dros nos yng Nghymru a 77% o ymwelwyr tramor i Gymru yn gwneud hynny i 'ymweld â lleoedd / safleoedd hanesyddol / atyniadau penodol / golygfeydd'. Roedd y ffigur hwn wedi cynyddu 20%, o 38% yn 2011. Os oes mwy na hanner y bobl sy'n dod i Gymru yn gwneud hynny yn awr oherwydd ei hamgylchedd hanesyddol, mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd i sicrhau bod y gwaith o ofalu amdani yn cael ei weld fel un o'r gofynion craidd i gynnal y sector twristiaeth. Dylai polisiâu gael eu datblygu fel bod y buddion canlyniadol yn cael eu lledaenu mor eang â phosibl.



### **3 Sicrhau cefnogaeth ac adnoddau parhaus ar gyfer diogelu a gwella asedau treftadaeth**

#### **A Darparu mwy o gyllid craidd ar gyfer y sector treftadaeth**

Mae'r trydydd sector yn gwneud cyfraniad amrywiol, gwerthfawr a phwysig i amgylchedd hanesyddol Cymru. Yn ôl Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, mae gan fwy na 4,000 o sefydliadau yng Nghymru ddiddordeb yn nhreftadaeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru wneud gwell defnydd o'r sector, a darparu cymorth gwell a mwy effeithiol. Dylai gweithdrefnau cyllido ar gyfer sefydliadau treftadaeth trydydd sector sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru gael eu hadolygu, a dylai grantiau gael eu cynnig am gylchredau hirach, tair blynedd fel arfer, ac nid bob blwyddyn fel ar hyn o bryd.

#### **B Darparu cefnogaeth ar gyfer adeiladau sydd mewn perygl**

Yn 2013, o'r 30,000 o adeiladau rhestredig yng Nghymru, roedd 2,673 ar gofrestr Cadw o adeiladau mewn perygl. Dylai Llywodraeth Cymru ddarganfod a gweithredu polisiau penodol i leihau nifer yr adeiladau sydd mewn perygl neu sy'n dod yn rhai mewn perygl e.e. cefnogi aildefnyddio adeiladau yn fuddiol ac yn gynaliadwy, cefnogi ymddiriedolaethau cadwraeth adeiladau, a chefnogi awdurdodau cynllunio wrth iddynt geisio datrys dyfodol adeiladau yn eu hardal.

#### **C Lobio Llywodraeth y DU ar faterion amgylcheddol hanesyddol**

Hoffem weld Llywodraeth Cymru yn lobio Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r canlynol:

- lleihau TAW i 5% ar atgyweirio, cynnal a chadw a gwella tai mewn perchenogaeth breifat fel y caniateir o dan reolau'r UE. Mae'r trefniadau TAW presennol yn annog codi adeiladau newydd yn hytrach nag atgyweirio, cynnal a chadw ac addasu adeiladau hŷn. Mae hyn i bob pwrpas yn dreth ar gadwraeth a chynnal a chadw.
- cynllun grant y Mannau Addoli Rhestredig i barhau tu hwnt i 2016, fel bod iawndal ar gyfer y TAW a delir ar gostau cymwys yn parhau i fod o fudd i'r dosbarth pwysig hwn o adeilad.
- Mannau Addoli Rhestredig (AddCCh) Cronfa Atgyweirio Toeon i barhau tu hwnt i 2016: ar gyfer atgyweiriadau brys ar fannau addoli cyhoeddus rhestredig ar draws y DU. Dim ond 26% o'r 1,900 o geisiadau sydd wedi bod yn llwyddiannus hyd yn hyn, sy'n dangos angen mawr.

### **4 Cynnwys pawb - tîrffeddiannwyr, cyrff treftadaeth, trigolion ac ymwelwyr - i fanteisio i'r eithaf ar ein treftadaeth**

#### **A Ennyn balchder gartref am dreftadaeth Cymru**

Mae gan Gymru dreftadaeth gyfoethog ac unigryw. Byddem yn hoffi gweld ymgyrch farchnata ac addysg fewnol am werth amgylchedd hanesyddol Cymru i oleuo ac ysbrydoli trigolion Cymru.

Mae gan dreftadaeth arwyddocâd diwylliannol anferth, sy'n arwain at deimlad o les ac sy'n bwysig wrth greu balchder bro, a dweud wrthym ni ein hunain pwy ydym ni.

#### **B Denu mwy o arian i mewn i dreftadaeth**

Mae llawer o sefydliadau treftadaeth angen dod o hyd i ffordd fwy cynaliadwy o ddiogelu costau craidd ar frys. Mae llawer o ffynonellau arian grant yn seiliedig ar brosiectau, ac nid yw'r mwyafrif ohonynt yn gallu darparu cyllid ar gyfer costau craidd. O ganlyniad, gall sefydliadau gael eu gorfodi, yn anghynaliadwy, i fynd ar ôl grantiau ar gyfer prosiectau penodol. Mae hyn yn arwain at y perygl o wyrdroi ffocws sefydliad oddi wrth ei amcanion craidd. Mae prinder cyllid craidd hefyd yn atal sicrhau adnodd gwirfoddol enfawr sy'n barod i gefnogi'r amgylchedd hanesyddol.

Mae prinder ffynonellau ariannol dyngarol preifat yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pob dull posibl o fewn ei phwerau i geisio cynyddu'r ffynonellau hyn a phob mathau eraill o ddulliau codi arian. Mae angen mwy o fuddsoddiad, gyda'r nod o gynyddu gallu grwpiau i ddod o hyd i gyllid, gan ffynonellau preifat a chyhoeddus (fel y darperir gan Arian Catalydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri).

#### **C Rhoi treftadaeth wrth wraidd datblygu cynaliadwy**

Dengys ymchwil y gall gofalu am dreftadaeth gyfrannu'n sylweddol i her newid yn yr hinsawdd sy'n deillio o allyriadau carbon gormodol. Mae angen polisi cenedlaethol i gydnabod y manteision carbon sylweddol wrth gadw ac addasu adeiladau hŷn, pan y'i gwneir mewn modd priodol.

## **CH Dathlu buddsoddiad mewn treftadaeth**

Mae tystiolaeth gynyddol i ddangos bod buddsoddi mewn treftadaeth yn cael ei adennill dros y tymor canolog i hir i bwrs y wlad, trwy'r trethi a delir o ganlyniad i gynyddu cyflogaeth a thrwy'r gostyngiad yn y budd-daliadau cymdeithasol a dalwyd. Dylai rhagor o waith gael ei wneud i gasglu'r wybodaeth berthnasol i ddangos y budd economaidd hwn, ac i gysylltu treftadaeth yn well gydag adfywio a pholisiau mentrau (eraill), e.e. drwy greu cysylltiadau rhwng cynlluniau grantiau treftadaeth ac adfywio.



## **Mae'r amgylchedd hanesyddol yn bwysig**

***Mae treftadaeth yn hanfodol ar gyfer lles cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol pobl a chymunedau yng Nghymru. Mae'n allweddol o ran hyrwyddo datblygu cynaliadwy sy'n cefnogi adfywio ehangach, sy'n catalyddu buddsoddiad, ac sy'n gwella sgiliau ar gyfer swyddi.***

Mae Amgylchedd Hanesyddol Cymru yn cynnwys:

- Bron i 30,000 o adeiladau rhestredig (gyda 9% ohonynt ar gofrestr Cadw o adeiladau rhestredig mewn perygl).
  - Dros 500 o ardaloedd cadwraeth.
  - Dros 4,000 o henebion rhestredig.
  - Tua 400 o erddi a thirweddau hanesyddol rhestredig
  - Tri o Safleoedd Treftadaeth y Byd.
- 'Dyma beth sydd yn diffinio cymeriad a hunaniaeth Cymru mewn termau gweladwy.'

Canfu adroddiad ECOTEC 2010, Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru, bod y sector amgylchedd hanesyddol yn cyfrannu'n sylweddol at economi Cymru:

- Amcangyfrifir bod y sector amgylchedd hanesyddol yn cynnal mwy na 30,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE) yng Nghymru.
- Mae'n cyfrannu tua £840 miliwn at werth ychwanegol crynswth cenedlaethol Cymru (GVA), sy'n cynrychioli 1.9% o gyfanswm GVA Cymru.
- Yn nhermau allbwn, mae'n cyfrannu rhyw £1.8 biliwn.
- Mae cyfran sylweddol o effeithiau economaidd yn ymwneud â gwariant twristiaeth y gellir ei briodoli i'r amgylchedd hanesyddol.

Canfu'r adroddiad ECOTEC bod gwerth ehangach Amgylchedd Hanesyddol Cymru yn sylweddol; mae'n cyfrannu at les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau:

### *Economaidd*

- Mae'n cefnogi datblygu cynaliadwy a gweithgareddau adfywio ehangach, yn gatalydd i fuddsoddiad ac yn gwella sgiliau ar gyfer swyddi

### *Amgylcheddol*

- Mae'n diogelu'r amgylchedd hanesyddol, yn cynnal ansawdd a bioamrywiaeth amgylcheddol,

ac yn arbed ynni drwy ailwampio adeiladau hanesyddol.

### *Cymdeithasol*

- Mae'n hyrwyddo mynediad at yr amgylchedd hanesyddol a dealltwriaeth ohono, yn gwella hunaniaeth a chydlyniant cymunedol ac yn gwella balchder bro. Mae'n cynyddu gallu a pherchnogaeth cymunedol, ac yn hybu lles a gwella ansawdd bywyd.
- Mae'n cynnig cyfleoedd dysgu i bobl o bob oed ac yn cefnogi cwricwlwm cenedlaethol Cymru.



# Grŵp Treftadaeth Cymru

Dyma yw aelodau Grŵp Treftadaeth Cymru:

## **Cymdeithas Diogelu Adeiladau Hynafol**

Sefydlwyd y gymdeithas gadwraeth hynaf yn y byd Saesneg ei iaith ym 1877 gan William Morris ac eraill. Mae'n ymwneud ag adeiladau cyn 1714, technegau ac athroniaeth atgyweirio, ac addysg. Mae'n ymgynghorai dan ddeddfwriaeth cynllunio seciwlar ac eglwysig.

## **Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru (Ysgrifenyddiaeth)**

Mae Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru yn hyrwyddo balchder bro fel modd o wella ansawdd bywyd i bawb yn y lleoedd lle rydym yn byw ac yn gweithio ynddynt, ac yn hybu gweithredu cymunedol, dyluniad da, datblygu cynaliadwy a pharch tuag at yr amgylchedd adeiledig ymysg pobl o bob oedran. Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru yw'r sefydliad ymbarél ar gyfer y rhwydwaith o gymdeithasau dinesig ar draws Cymru.

## **Y Gymdeithas Fictoriaidd**

Y Gymdeithas Fictoriaidd yw'r eiriolwr ar gyfer adeiladau Fictorianaidd ac Edwardaidd (1837-1914) yng Nghymru a Lloegr.

## **Y Grŵp Sioraidd**

Mae'r Grŵp Sioraidd yn elusen genedlaethol sydd wedi ymroddi i ddiogelu adeiladau a gerddi Sioraidd. Ymgynghorir â nhw yn flynyddol ar dros 6,000 o geisiadau cynllunio sy'n cynnwys dymchwel neu wneud newidiadau i adeiladau.

## **Cymdeithas yr Ugeinfed Garrif**

Sefydlwyd Cymdeithas yr Ugeinfed Garrif fel Cymdeithas y Tridegau ym 1979, ac mae'n bodoli i ddiogelu treftadaeth pensaernïaeth a dylunio ym Mhrydain o 1914 ymlaen. Prif amcanion y Gymdeithas yw cadwraeth ac addysg.

## Cymdeithas Henebion a Chyfeillion Eglwysi Digyfaill

Mae'r Gymdeithas Henebion (AMS) yn ymwneud ag astudio a diogelu adeiladau hanesyddol o bob oedran a math. Mae'n gweithio mewn partneriaeth â Chyfeillion Eglwysi Digyfaill, sy'n berchen ar 47 o leoedd addoli segur ond hanesyddol bwysig yng Nghymru a Lloegr.

## Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Eglwysi

Mae Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Eglwysi yn cefnogi ac yn hyrwyddo adeiladau eglwysig o werth hanesyddol, pensaernïol a chymunedol. Dyma'r unig elusen annibynnol, ar draws y DU sy'n cefnogi eglwysi, capeli a thai cyfarfod o bob enwad Cristnogol, gan ddarparu grantiau, cymorth, cyngor a gwybodaeth a cheisio tynnu sylw at werth yr adeiladau pwysig hyn.

## Yr Ymddiriedolaeth Theatrau

Yr Ymddiriedolaeth Theatrau yw'r Corff Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Theatrau, sy'n diogelu theatrau (hen a newydd) i bawb. Mae'n gweithredu yn genedlaethol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, ac yn hybu gwerth adeiladau theatr a hyrwyddo eu dyfodol. Mae'n darparu cyngor arbenigol ar ddatblygiad cynaliadwy theatrau, yn dosbarthu grantiau cyfalaf bach, ac yn helpu i rymuso cymunedau lleol i adfywio theatrau mewn perygl.

## Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru

Mae Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru yn gofalu am addoldai segur nad ydynt yn rhai Anglicanaidd, sy'n enghreifftiau eithriadol o dreftadaeth adeiledig grefyddol Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cynnig cyngor a chymorth i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am ofalu am dreftadaeth adeiledig grefyddol yng Nghymru, fel y bydd ei adnoddau yn caniatáu.

## Cymdeithas Ymddiriedolaethau Cadwraeth Cymru

Gyda phoblogaeth gymharol fach o ryw 3 miliwn, mae gan Gymru o leiaf 30 o Ymddiriedolaethau gweithgar sy'n aelodau o Gymdeithas

Ymddiriedolaethau Cadwraeth Cymru. O'r 30 hyn, dim ond un Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau yng Nghymru, sef Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru, sy'n gweithredu yn weithredol ar draws Cymru gyfan. Mae Cymru hefyd wedi elwa o bum Ymddiriedolaeth yn y DU sydd wedi gwneud gwaith neu wedi derbyn cyngor yng Nghymru. Mae'r trideg o ymddiriedolaethau yng Nghymru sy'n aelodau o UKAPT wedi eu cofrestru fel elusennau a chwmnïau cyfyngedig drwy warant.

## Cyngor Archaeoleg Prydain

Mae Cyngor Archaeoleg Prydain yn sefydliad gwirfoddol sy'n gweithio i hyrwyddo astudio a diogelu amgylchedd hanesyddol Prydain, er mwyn darparu fforwm ar gyfer barn archeolegol, a gwella diddordeb y cyhoedd yng ngorffennol Prydain, a gwybodaeth ohono. Amcanion Cyngor Archaeoleg Prydain yw codi proffil archaeoleg drwy'r holl gymdeithas, ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig, a chryfhau gofal y cyhoedd o'r amgylchedd hanesyddol.

## Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru

Mae Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru yn sefydliad ymgyrchu cenedlaethol sy'n gweithio i geisio achub gerddi hanesyddol a pharciau rhag esgeulustod, difaterwch, cynllunio ansensitif a phlannu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Nod Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru ydy codi proffil parciau a gerddi treftadaeth yng Nghymru; hyrwyddo adfer a chadw parciau a gerddi dan fygythiad, ac ymchwilio i hanes gerddi Cymru.



Cysylltwch â:

Grŵp Treftadaeth Cymru  
walesheritagegroup@gmail.com